# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2011, 09.00-10.30
## Ystafell Bwyllgora 4B

**Yn bresennol:**
Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)
Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)
Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)
Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)
Connie Cockburn (Pennaeth Ystadau'r Cynulliad a TGCh)
Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)
Sulafa Thomas (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)
Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)
Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi) – eitemau 7 ac 8 yn unig
Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)
Craig Stephenson (Pennaeth Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau)
Helen Finlayson (Yr Ysgrifenyddiaeth)

**1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth). Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**2. Hysbysiadau i'r staff**
Bydd Sulafa Thomas yn drafftio cofnod o drafodion y Bwrdd Rheoli i'w roi ar y dudalen newyddion.

**3. Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 a 16 Mehefin 2011**
Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth.

**4. Adroddiad rheoli ariannol**
Nododd Steven O'Donoghue fod gwariant hyd yn hyn mwy neu lai o fewn terfynau'r hyn a ragwelwyd, ond bod tanwariant wedi cael ei ragweld ar gyfer diwedd y flwyddyn. Mae gwaith manwl pellach gyda'r gwasanaethau a swyddfa'r rhaglen ar y mater hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i benaethiaid y gwasanaethau ystyried a oes unrhyw wariant sydd ar hyn o bryd wedi'i gynllunio ar gyfer 2012-13 y gellir ei wneud yn 2011-12, neu a oes unrhyw waith y gallai fod yn sylfaen ar gyfer cynllun buddsoddi er mwyn arbed pe bai'n cael ei gwblhau yn ystod 2011-12. Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a fyddai o bosibl angen cael eu hariannu, a gofynnwyd i benaethiaid y gwasanaethau perthnasol fwrw ymlaen â'r gwaith yn y meysydd hyn yn ystod y toriad, yn ogystal â'r gwaith ar y cynigion cyllidol ar gyfer 2012-13.

Bydd y tîm Cyllid yn gweithio ar gynigion cyllidol manwl ar gyfer 2012-13 yn ystod y toriad, yn barod i'r Comisiwn eu hystyried ym mis Medi. Gofynnodd y Bwrdd i'r gwariant a ragwelwyd ar gyfer 2011-12 gael ei gyfrifo ar yr un pryd.

Bu'r Bwrdd yn trafod rôl y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r rhaglen newid, a gofynnodd am eglurhad gan John Grimes ynghylch trefniadau'r dyfodol.

5. Strategaeth y Comisiwn a'r strategaeth gyllidol
Bu'r Bwrdd yn trafod strategaeth ddiwygiedig y Comisiwn, a oedd wedi cael ei diwygio i adlewyrchu sylwadau'r Comisiynwyr ar 29 Mehefin. Ychwanegwyd nod ychwanegol ynghylch bod yn llysgennad dros Gymru, ac roedd rhai manylion o'r adran ar werthoedd wedi cael eu hepgor.

Bydd y strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad strategol a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn ystod y pum mlynedd nesaf. Cytunodd y Bwrdd y dylai cyfathrebu'r strategaeth i'r staff gynnwys darparu rhagor o fanylion ac eglurhad gan y Prif Weithredwr i gynorthwyo staff yn eu gwaith dros y Cynulliad ac i gyrraedd nodau'r Comisiwn.

Bu'r Bwrdd yn trafod y strategaeth gyllidol arfaethedig, sydd â'r bwriad o egluro goblygiadau'r gwahanol opsiynau i'r Comisiwn. Amlinellwyd y canlyniadau i'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig o barhau â'r strategaeth bresennol a dangoswyd sut y gallai gwasanaethau gael eu gwella/cryfhau os byddai cyllideb mwy yn cael ei neilltuo ar eu cyfer. Yn sgil arweiniad gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf, bydd cynigion manylach yn cael eu datblygu yn ystod toriad yr haf i gael eu hystyried gan y Comisiwn ym mis Medi.

6. Risg strategol: prif gyflenwyr/contractwyr/partneriaid
Bu'r Bwrdd yn trafod y risg strategol, a'r rheoliadau sydd yn eu lle, gan nodi bod tebygolrwydd digwyddiad wedi gostwng i lefel cymedrol. Gofynnodd y Bwrdd bod rhagor o waith yn cael ei wneud i:

- ystyried pa mor ddibynnol mae contractwyr allweddol ar isgontractwyr llai;

- sicrhau bod y broses o benderfynu a yw contractwr yn un 'allweddol' ai peidio yn ystyried risgiau i enw da yn ogystal â risgiau ariannol;

- mabwysiadu agwedd mwy strwythurol tuag at fonitro'r hinsawdd ariannol ehangach a statws credyd a statws ariannol penodol contractwyr;

- ystyried y rôl y byddai'n well gan y Comisiynwyr ei chwarae o ran rheoli contractau a chaffael;

- cynnwys datblygiad cynlluniau wrth gefn mewn perthynas ag effaith methiant cyflenwyr yn y broses ehangach o gynllunio ar gyfer cysondeb busnes;

- adlewyrchu penodiad y Pennaeth Caffael newydd; a

- datblygu asesiad risg newydd ar gyfer y contract TGCh, gan adlewyrchu ar y materion penodol sy'n codi o'r asesiad hwnnw.

7. Materion i'w hystyried dros yr haf
Bu'r Bwrdd yn clywed y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau gwaith pob gwasanaeth dros doriad yr haf:

- Adnoddau – datblygu cynigion cyllidol drafft;
- Cymorth i'r Comisiwn ac Aelodau – datblygu rhaglen y Llywydd a chymorth i'r Llywydd; ad-drefnu swyddfeydd 4B;
- Rheoli Ystadau a Chyfleusterau a TGCh – cynnal a chadw'r adeilad; cynllunio ar gyfer y gyllideb; strategaeth TGCh;
- Y Gwasanaeth Ymchwil – gwaith ar y protocol ar fynediad at wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru; cyfryngau cymdeithasu ac e-ddemocratiaeth; gwyliau staff;

- Cyfathrebu – datblygu rhaglen y Llywydd; Canolfan Llywodraethiant Cymru; prosiect y wefan ar gyfer sioeau'r haf; cyfryngau cymdeithasu ac e-ddemocratiaeth yn y Gwasanaeth Ymchwil; yr adolygiad brandio;
- Pwyllgorau – ymgynghori ar ymchwiliadau'r pwyllgorau; ailwampio'r broses ddeisebau; datblygu ABMS a rhoi'r system ar waith; hyrwyddo rhwydweithio rhwng clercod a rhanddeiliaid;
- Cyfreithiol – cynllunio datblygiad y gwasanaeth cyfreithiol i adlewyrchu'r newidiadau i strwythur y pwyllgorau a phwerau deddfu newydd y Cynulliad;
- Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad – bwrw ymlaen â gwaith paratoi a gwaith cefndirol ar bensiynau yn barod i gael ei ystyried gan y Bwrdd Taliadau ym mis Medi;
- Cyfieithu a Chofnodi – bwrw ymlaen â Chofnod y Trafodion yn seiliedig ar drafodaethau'r Comisiwn ar 14 Gorffennaf; ail-dendro'r contract 'yn ôl y galw'; cofnod clywedol a gweledol; a
- Prif Swyddog Gweithredu – contract TGCh; ystyried materion strategol sy'n deillio o drafodaethau'r Comisiwn a'r cysylltiadau â phroses y gyllideb.

Bu'r Bwrdd yn ystyried y newyddion sy'n debygol o godi yn y wasg yn ystod y toriad, a chytunodd y dylai Penaethiaid y Gwasanaethau weithio gyda thîm y wasg i sicrhau bod ymatebion posibl wedi cael eu paratoi o flaen llaw, a bod cyfres o ddatganiadau cadarnhaol yn barod i gael eu rhyddhau.

Dod â'r cyfarfod i ben

8. Unrhyw fusnes arall
Nid oedd unrhyw fusnes arall

9. Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf
Bydd Claire a'r cyfarwyddwyr yn cytuno ar agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Yr Ysgrifenyddiaeth
Gorffennaf 2011